**CYNGOR CYMUNED RHOSCOLYN**

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00pm. Nos Iau, 14 Tachwedd 2024.**

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Cyng. Barry Thomas
**Cynghorwyr:** Susan Hanbury, Elwyn Owen, William Roberts, Evan Wyn Robertson a Tony Tompson.
Hefyd yn bresennol: Mai Owen - Clerc

1. **Ymddiheuriadau:** Keith Roberts (Cynghorydd Sir)

2. **Datganiad o Ddiddordeb:** – dim.

3. **Seddi Gwag:**
Cyflwynodd y Clerc geisiadau gan Mr Geraint Owen a Mr Meilir Parry a chadarnhawyd fod y ddau ymgeisydd wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer eu cyfethol. Trafodwyd y ceisiadau yn fanwl a chytunwyd yn unfrydol i gyfethol y ddau ar Gyngor Cymuned Rhoscolyn.
Gan fod Mr Owen yn bresennol yn yr adeilad gofynnwyd iddo arwyddo ei fod yn dderbyn sedd ar y Cyngor Cymuned ac fe'i gwahoddwyd i ymuno am weddill y cyfarfod.

4. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol:** derbyniwyd cofnodion 3 Hydref 2024 fel rhai cywir (cynnig. Cyng. S. Hanbury, eilio. Cyng. E. Owen).

5. **Materion yn codi o'r cofnodion**

5.1 Llygredd yn y dŵr wrth Bont Plas Coch – CSYM am ymweld â'r safle ond awgrymwyd hefyd mai Cyfoeth Naturiol Cymru ddylai edrych ar hwn. Cyng. Geraint Owen wedi cytuno i gadw log o unrhyw arogl o'r safle.

6. **Ceisiadau Cynllunio**

6.1 FPL/2024/ 299 at Rhyd y Bont, Pontrhydybont
Cais llawn i drosi adeilad allanol fferm bresennol yn anecs ategol i'r annedd bresennol ynghyd â ymestyn y cwrtil preswyl a gosod pecyn trin carthffosiaeth a ffos gerrig – dim gwrthwynebiad.

7. **Mynediad i draeth Rhoscolyn**
Cyflwynwyd llythyr gan CSYM yn cynnig dileu'r llwybr pren oedd wedi'i ddifrodi ac ail-leoli'r amddiffynfeydd creigiau / arfordirol gan ei fod mewn cyflwr gwael ac yn peri risg iechyd a diogelwch i'r cyhoedd. Gan nad oedd gan y Cyngor Sir arian i'w drin a bod amheuaeth am bwy oedd perchennog y tir a phwy fyddai'n gyfrifol petai rywun yn brifo cytunwyd mai cau'r mynediad yn gyfan gwbl fyddai orau.

8. **Gohebiaeth** (er gwybodaeth)

8.1 Fforwm cynghorau tref a chymuned – cofnodion. .

8.2 Hyfforddiant – i'w drefnu drwy'r clerc.

8.3 Cynghrair Caergybi - Yn dilyn cyfarfod diweddar yng Nghanolfan Gwelfor nodwyd bod £30,000 ar gael i'w rannu rhwng cymunedau Rhoscolyn, Trearddur a Chaergybi. Roedd sawl cais llwyddiannus eisoes wedi eu cyflwyno gan sefydliadau yn ardal Caergybi. Mewn gwirionedd ystyriwyd ei bod yn annhebygol y byddai ardal Rhoscolyn yn elwa o'r gronfa hon.

8.4 Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2025-2026.

8.5 Siarter Cymuned ar y Cyd - diweddariad 2024.

8.6 Codiad cyflog NJC - nodwyd fod y clerc wedi ei chyflogi ar delerau Llywodraeth Leol a bod codiad cyflog o £104.61 wedi ei gytuno am 2024/25.

8.7 Terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2025-26. - O dan adran 137(3), caniateir i Gynghorau Cymuned a Thref ysgwyddo gwariant at ddibenion elusennol ac eraill a bennir. Uchafswm y gwariant y gellir ei ysgwyddo o dan adran 137(1) a (3) ar gyfer blwyddyn ariannol 2025- 26, yn y ddau achos, fydd £11.10 fesul etholwr.

## 9. Materion Ariannol

Cyflwynwyd: adroddiad ariannol SAC am y cyfnod o 1. 9.2024 i 31.10. 2024) ynghyd â chysoniadau banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.

9.1 Archwiliadau Cyfrifon 2022/23 - Nodwyd bod yr Archwilwyr Allanol wedi cymeradwyo'r cyfrifon terfynol a chyhoeddi adroddiad diamod. Er bod dim o'i le, fe nodwyd y canlynol:

*Mae'r adroddiadau archwilio mewnol yn awgrymu nad oedd y Cyngor wedi cynnal ei gofnodion cyfrifeg yn llawn fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Yn hytrach, mae'n ymddangos mai dim ond ar ddiwedd y flwyddyn y paratowyd y cofnodion cyfrifyddu. Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn cadw cofnod o ddydd i ddydd o'i holl dderbynebau a thaliadau fel y nodir yn y Rheoliadau. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i reoli ei gyllid yn iawn. Nid yw maint cymharol fach y Cyngor wedi'i eithrio o'r gofynion statudol i gynnal cofnodion priodol ac i ddiogelu'r arian y mae'n ymddiried ynddo.*

9.2 Cyfrifon 2024/25 – Nodwyd fod cyfanswm gwariant o £4293.62 i ddiwedd Tachwedd 2024 ond roedd lwfans cynghorwyr, cyflog hanner blwyddyn a mwy o filiau archwilio i ddod. Y rhagolwg oedd, y bydd tan wariant erbyn diwedd o fllwyddyn a hynnu yn bennaf am na fu angen talu am gyfieithu yn y misoedd diwethaf.

9.3 Blwyddyn Ariannol 2025/26 – y clerc i baratoi amcan gyfrifon ar gyfer gwneud cais am praesept yn mis Ionawr.

9.4 Rheoliadau Cyllidol – cytunwyd i dderbyn y Rheoliadau Cyllidol newydd a gyflwynwyd gan y SAC. Roedd y rhain yn seiliedig ar y ddogfen enghreifftiol a baraotwyd gan NALC / Un Llais Cymru.

9.5 Taliadau: cytunwyd i dalu'r rhain:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Archwilio Cymru | £200 | | |

Cytunwyd y byddai'r clerc yn talu unrhyw anfoneb a dderbyniwyd am wariant a gytunwyd arno yn flaenorol.

**10. Adroddiad Blynyddol**
Cytunwyd i gyhoeddi adroddiad 2023-24 fel ei chyflwynwyd gan y clerc.

**11. Adroddiadau Cynghorwyr**

11.1 Cyng. Susan Hanbury
Yn tynnu sylw at gyflwr y fainc wrth yr Eglwys – Byddai'r Cyngor Cymuned yn fodlon gosod mainc newydd yno petai yn cael y caniatâd priodol.

**12.** Cyfarfod nesaf 2 Ionawr 2025.

---

## RHOSCOLYN COMMUNITY COUNCIL

### Council Meeting Minutes - 7.00pm. Thursday, 14 November 2024

**Present:** Chair: Councillor Barry Thomas
**Councillors:** Susan Hanbury, Elwyn Owen, William Roberts, Evan Wyn Robertson and Tony Tompson.
Also present: Mai Owen - Clerk / RFO

**1. Apologies:** Keith Roberts (County Councillor)

**2. Declaration of Interest:** – none.

**3. Vacant Seats:**
The Clerk submitted applications from Mr Geraint Owen and Mr Meilir Parry and it was confirmed that both applicants had met the criteria for co-option. The applications were discussed in detail and it was unanimously agreed to co-opt the two on to Rhoscolyn Community Council.
As Mr Owen was present in the building he was asked to sign his 'Acceptance of Office' following which he was invited to join for the remainder of the meeting.

**4. Minutes of previous meeting:** minutes of 3 October 2024 accepted as correct (prop. Cllr. S. Hanbury, seconding. Cllr. E. Owen).

**5. Matters arising from the minutes**

5.1 Pollution in the water by Plas Coch Bridge – IOACC agreed to visit the site but it was also suggested that Natural Resources Wales should look at this. Cllr. Geraint Owen agreed to keep a log of any odour from the site.

**6. Planning Applications**

6.1 FPL/2024/ 299 at Rhyd y Bont, Pontrhydybont
Full application for the conversion of an existing farm outbuilding into an annex ancillary to the existing dwelling together with an extension to the existing residential curtilage, installation of a package treatment plant and soakaway – no objection.

**7. Access to Rhoscolyn beach –** A letter was submitted by IOACC proposing to remove the damaged boardwalk and reposition the rock / coastal defences as it was in poor condition and posed a health and safety risk to the public. As the County Council had no funds for repairs and there was doubt about who owned the land / path and who would be responsible if anyone was hurt it was agreed that it would be best to close the access altogether.t.

**8. Correspondence** (for reference)

8.1 Town and Community Council Forum – minutes.
8.2 Training – to be arranged through the clerk.
8.3 Holyhead Alliance – Following a recent meeting at Canolfan Gwelfor it was noted that £30,000 was available to share between the communities of Rhoscolyn, Trearddur and Holyhead. Several successful bids had already been submitted by organisations in the Holyhead area. In reality it was considered unlikely that the Rhoscolyn area would benefit from this funding.

8.4 Draft Annual Report of the Independent Panel for Wales on Remuneration 2025-2026.
8.5 Joint Community Charter - 2024 update.
8.6 NJC pay rise - it was noted that the clerk was employed on Local Government terms and conditions, the recent negotiated pay rise would result in an increase cost of £104.61 for 2024/25.

8.7 Section 137 spending limit for 2025-26. - Under section 137(3), Community and Town Councils are allowed to bear expenditure for charitable and other purposes specified. The maximum expenditure that can be incurred under section 137(1) and (3) for the 2025-26 financial year, in both cases, will be £11.10 per elector.

**9. Financial Matters**

Submitted: RFO financial report for the period of 1. 9.2024 to 31.10. 2024) together with bank reconciliations, statements and copies of the accounts.

9.1 Account Audits 2022/23 - It was noted that the External Auditors had approved the final accounts and issued an unqualified report but the following were noted:

*The internal audit reports suggest that the Council did not fully maintain its accounting records as required by the Accounts and Audit (Wales) Regulations 2014. Instead, it appears that the accounting records were only prepared at the end of the year. It is essential that the Council keeps a day-to-day record of all its receipts and payments as*

*set out in the Regulations. This will help the Council manage its finances properly. The Council's relatively small size is not exempt from the statutory requirements to maintain proper records and to protect the funds it trusts.*

9.2 Accounts 2024/25 – It was noted that the total expenditure to the end of November was £4293.62 but there was still councillors' allowance and six months salary to pay and more audit bills to come. However there was likely to be an underspend by the end of the financial year as there has been no need to pay for translation in recent months.

9.3 Financial Year 2025/26 – the clerk would prepare an estimated budget so as to apply for a precept from IOACC in January.

9.4 Financial Regulations – agreed to accept the new Financial Regulations introduced by the RFO. These were based on the sample document prepared by NALC / One Voice Wales.

9.5 Payments: agreed to pay these:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Audit Wales | £200 | | |

It was agreed that the clerk would pay any invoice received for previously agreed expenditure.

**10. Annual Report**

It was agreed to publish the 2023-24 report as submitted by the clerk.

**11. Councillors' Reports**

11.1 Cllr. Susan Hanbury

It was reported that the bench by the Church was in poor repair. The Community Council would be happy to install a new one there if given the appropriate permission.

**12. Next meeting 2 January 2025.**